

## Datganiad Ysgrifenedig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru – 6 Gorffennaf 2016

Yn araith y Frenhines ar 18 Mai 2016, cyhoeddwyd rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer y flwyddyn sydd o'n blaen. Bydd y ddeddfwriaeth y byddwn yn ei chyflwyno'n rhoi sicrwydd i bobl sy'n gweithio; yn gwella cyfleoedd mewn bywyd i'r rhai sy'n wynebu'r anfanteision mwyaf; ac yn cryfhau diogelwch yn ein gwlad.

Mae'r rhaglen ddeddfwriaethol yn cynnwys 22 o Fesurau a bydd y Bil Heddlua a Throseddu, y Bil Pwerau Ymchwilio, a'r Bil Cyllid hefyd yn cwblhau eu hynt seneddol yn ystod y sesiwn hon, wedi'u trosglwyddo o'r sesiwn gyntaf. Rhaglen ddeddfwriaethol sydd wedi'i hadeiladu ar sail tri phrif nod yw hwn.

Yn gyntaf, rydym yn cyflwyno deddfwriaeth a fydd yn rhoi sicrwydd i bobl sy'n gweithio:

- Bydd y **Bil Marchnadoedd Gwell** yn agor marchnadoedd, yn hybu cystadleuaeth, yn rhoi mwy o rym a dewis i ddefnyddwyr, ac yn gwneud i reoleiddwyr economaidd weithio'n well;
- Bydd **Bil yr Economi Ddigidol** yn moderneiddio ein hinsawdd ar gyfer menter, gan sicrhau bod Prydain yn aros ar flaen y gad yn economi fyd-eang yr 21<sup>ain</sup> ganrif;
- Bydd ein **Bil Trafnidiaeth Fodern** yn rhoi Prydain ar flaen y gad ym maes technolegau modern ym maes trafndiaeth hefyd;
- Bydd y **Bil Cynllunio a Seilwaith Cymdogaethau** yn sicrhau bod gan Brydain y busnesau seilwaith sydd eu hangen arni i dyfu;
- Bydd **Bil y GIG (Ffioedd Ymwelwyr Tramor)** yn sicrhau bod ymwelwyr tramor yn talu am y driniaeth iechyd a gânt ar draul y cyhoedd; a
- Bydd y **Bil Pensiynau** yn cyflwyno rhagor o ddiwygiadau i system pensiynau preifat Prydain.

Yn ail, rhaglen ddeddfwriaethol a fydd yn gwella cyfleoedd mewn bywyd i'r rhai sy'n wynebu'r anfanteision mwyaf:

- Bydd y **Bil Plant a Gwaith Cymdeithasol** yn mynd i'r afael â methiant y wladwriaeth ac yn trawsnewid canlyniadau i blant mewn gofal;
- Bydd y **Bil Addysg i Bawb** yn cyflawni cam nesaf trawsnewid addysg y Llywodraeth;

- Bydd y **Bil Addysg Uwch ac Ymchwil** yn cyflawni'r diwygiadau mwyaf a gyflwynwyd ar ochr gyflenwi'r sector addysg uwch ers chwarter canrif;
- Bydd **Bil Diwygio'r Carchardai a'r Llysoedd** yn cyflwyno'r diwygiadau mwyaf a welwyd yn ein carchardai ers oes Victoria, gan sicrhau nad dim ond lle i gosbi yw'r rhain ond hefyd i adsefydlu troseddwyd;
- Bydd y **Bil Cynilion Oes** yn helpu pobl i gynilo a chynllunio ar gyfer y dyfodol; a
- Bydd y **Bil Rhoddion Elusennol Bach** yn diwygio'r Cynllun Rhoddion Bach 'Cymorth Rhodd' i sicrhau ei fod yn cefnogi'r nifer fwyaf posibl o elusennau a rhoddion ag sy'n bosibl.

Yn drydydd, rydym yn cyflwyno deddfwriaeth sy'n cryfhau diogelwch ein gwlad;

- Bydd y **Bil Gwrth–Eithafiaeth a Diogelu** yn rhoi pwerau newydd i asiantaethau gorfodi er mwyn iddynt amddiffyn pobl agored i niwed rhag eithafiaeth;
- Bydd y **Bil Arian Troseddol** yn cadarnhau swyddogaeth y Deyrnas Unedig wrth iddi arwain y frwydr yn erbyn llygredd rhyngwladol;
- Bydd y **Bil Hawliau** yn cefnogi ac yn atgyfnerthu ymrwymiad tymor hir Prydain i hawliau dynol ac yn adfer synnwyr cyffredin yn y ffordd y mae cyfraith hawliau dynol yn cael ei rhoi ar waith; a
- Bydd y **Bil Eiddo Diwylliannol (Gwrthdaro Arfog)** yn galluogi'r Deyrnas Unedig i gytuno â Chonfensiwn Hague er mwyn Gwarchod Eiddo Diwylliannol os Digwydd Gwrthdaro Arfog, a'i ddau brotocol.

Yn olaf, rydym wedi cyflwyno **Bil Cymru** i sicrhau setliad datganoli mwy sefydlog i Gymru ac, wrth galon hwnnw, bydd eglurdeb ac atebolrwydd. Bydd y Bil yn darparu model newydd sef model cadw pwerau, a hynny ochr yn ochr â phwerau pwysig newydd ym maes ynni, trafndiaeth ac etholiadau.

Bydd y Biliau hyn i gyd o fudd uniongyrchol i Gymru. Dyma'r cam nesaf yn ein cynllun economaidd tymor hir sy'n darparu swyddi a thwf ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae'n cynnwys diwygiadau beiddgar i fynd i'r afael â rhai o'r problemau dyfnaf yn ein gwlad, bydd yn chwalu'r pethau hynny sy'n rhwystro cyfleoedd, ac mae'n cydnabod dyletswydd y llywodraeth i gadw ein gwlad yn ddiogel.